# Cyngor Cymuned Llandderfel

## Adroddiad Bioamrywiaeth 2025-28

Yn 1985 ffurfiwyd y Cyngor Cymuned bresennol wrth gyfuno hen blwyf Llanfor a hen blwyf Llandderfel. Yn ddaearyddol y mae'n un o'r plwyfi mwyaf yng Nghymru ag arwynebedd o bron ugain mil hectar sy'n ymestyn o ffiniau Cyngor Bwrdeistref Conwy yn y gogledd i Sir Ddinbych yn y gogledd a'r dwyrain ac at derfyn Powys yn y de ddwyrain. Poblogaeth denau a gwasgaredig sydd i'r gymuned wledig hon yn cynnwys pentrefi Llandderfel, Glanrafon, Llanfor, Frongoch a Sarnau. Yng nghyfrifiad 2011 yr oedd y boblogaeth yn 1,511 ac roedd 803 o etholwyr ar y rhestr gyfredol. Praesept y Cyngor yw £15,000.
Rhed afon Dyfrdwy drwy ganol y plwyf a ffurfia afonydd Celyn a Thryweryn ran helaeth o'r ffiniau gorllewinol a deheuol. Rhed afon Celyn i'r llyn a gronnwyd yn y chwedegau i gyflenwi dinas Lerpwl. Y tri chopa uchaf yn yr ardal fynyddig hon yw Carnedd y Filiast (669 metr), Foel Cwm Siân Llwyd (648 metr), a'r Foel Goch (611 metr). Mewn cydweithrediad a Chyngor Gwynedd a Partneriaeth Penllyn mae nifer fawr o lwybrau cyhoeddus yn cael eu cynnal a chadw sy'n darparu mynediad i deithiau cerdded hamdden ar hyd yr ardal. Lleoli'r warchodfa natur Cors y Sarnau, ar yr A494 sy'n cael ei reoli gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru. Mae'r gors yma yn safle pwysig cenedlaethol ac y gartref i'r neidr glaswellt, madfallod, telor, gwas y neidr, tegeirian ayyb. Yn 2014 bu iddynt ehangu'r warchodfa drwy brynu tir cyfagos ac yn 2016 cynorthwyodd y Cyngor Cymuned yr Ymddiriedolaeth i hyrwyddo'r datblygiad yma wrth gynnal diwrnod agored yn Neuadd Sarnau.
Mae dwy ysgol gynradd, addoldai, neuaddau bentref, caffi a thafarn, garej a siop o fewn yr ardal. Mae'r trigolion yn gweithio yn y byd amaeth, yn y byd twristiaeth, mewn busnesau preifat ac mae nifer sylweddol yn teithio allan o'r ardal i amrywiaeth o swyddi. Mae'r ysgolion cynradd yn cymryd rhan yn y rhaglen addysg amgylcheddol Eco-Sgolion ac wedi derbyn baneri gwyrdd am eu hymdrechion.
Mae amrywiaeth o gynefinoedd: mynyddoedd, mawndir, ffriddoedd, coedwigoedd a fforest, tir gwastad a dolydd, gorlifdir, afonydd, llynnoedd. Mae rhan fach o'r Cyngor Cymuned yn rhan o ardal Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r amaethwyr, gyda chyngor gwahanol gynlluniau Llywodraeth Cymru yn cyfrannu'n sylweddol iawn at gynnal bioamrywiaeth yr ardal.
Mae'r Cyngor Cymuned yn berchen ar dair mynwent, mynwent St Mor & Deiniol, Llanfor lle nid oes claddedigaethau yno ac mae'r gwair yn y fynwent yn cael ei dorri 3 waith y flwyddyn yn unig. Mae coed yw yno, rhai yn hen iawn. Mae'r Cyngor hefyd yn berchen ar y Fynwent Newydd yn Llandderfel a St Mark, Frongoch a ddefnyddir ar gyfer claddedigaethau. Er mwyn gwarchod adar sy'n nythu ni thorri'r gwrych na'r coed o gwmpas y fynwent rhwng y 1af o Fawrth a 1af o Fedi. Yn 2024 bu i'r Cyngor gydweithio gyda swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri drwy blannu dwy goeden yw ym mynwent Frongoch fel rhan o'i 'Prosiect Coed Yw'.
Mae'r Cyngor yn berchen ar Gae Chwarae Llandderfel, ¼ erw o gae gwyrdd, sy'n cael ei reoli gan y Pwyllgor Lleol. Mae'r Cyngor hefyd wedi lesio Parc Chwarae Frongoch, llecyn bach o dir ger yr ysgol gynradd, drwy Gyngor Gwynedd ac eto
mae'r Pwyllgor Leol yn ei reoli. Yn 2018 cefnogwyd cynllun Pwyllgor Chwarae Llandderfel i blannu coed cynhenid ar ymylon y cae chwarae i annog bioamrywiaeth.

**Arfarnwyd cynllun 2022-25:**

Wrth ystyried y cynllun a wnaed bu i'r Cyngor,
i) Cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a diogelu'r prif rywogaethau a'r cynefinoedd wrth ymateb i geisiadau cynllunio.

ii) Ni thorriwyd gwrychoedd a choed y mynwentydd rhwng 1af o Fawrth a 1af o Fedi i sicrhau cynefinoedd perffaith i fywyd gwyllt amrywiol a hybu bioamrywiaeth yn yr ardal. Peidio defnyddio chwyn laddwyr.
iii) Bu iddynt gydweithio ag Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd ynglŷn â rheoli ochr ffyrdd mewn ffordd neith annog bioamrywiaeth.
iv) Yn 2024 bu i'r Cyngor gydweithio gyda swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri a phlannu dwy goeden yw ym mynwent Frongoch fel rhan o'i 'Prosiect Coed Yw'.
v) Fel rhan o gynllun 'Gwynedd Ni' defnyddwyd yr arian i adfer waliau cerrig traddodiadol mynwent Frongoch.
vi) Fel rhan o gynllun grant Gronfa Melinau Gwynt Cyfylliog prynwyd bylbiau cenin pedr ar gyfer y mynwentydd a cafwyd cymorth disgyblion ysgolion Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn i'w plannu.
vii) Cefnogi gwaith amaethwyr, gwaith cynnal llwybrau Partneriaeth Penllyn a Chyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru, Clwb Garddio Frongoch a Sioe Amaethyddol a Arddwriaethol Cwmtirmynach.
viii) Bu i'r cynghorwyr rannu ceir i deithio i gyfarfodydd misol y cyngor a lleihau eu ôl troed carbon.

| **Adroddiad Gweithredu 2025-28** | | |
|---|---|---|
| Camau gweithredu i: | | Wedi eu monitro gan: |
| -cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a chaffael | - Wrth ymateb i geisiadau cynllunio<br>- wrth ymwneud a phrosiectau'r Cyngor<br>- wrth bwrcasu | Cyngor |
| -codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd | Cyd-weithio gyda phwyllgor Cae Chwarae Llandderfel a'r ysgolion cynradd lleol Ysgol Bro Tryweryn ac Ysgol Ffridd y Llyn.<br>Hyrwyddo gwaith Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru yn Gors y Sarnau | Cyngor |
| -diogelu'r prif rywogaethau a'r cynefinoedd | Gofalu bod ceisiadau cynllunio yn cyd-ymffurfio gyda rheolau gwarchod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd.<br>Ni thorri'r gwrychoedd a choed y mynwentydd rhwng 1af o Fawrth a 1af o Fedi.<br>Chydweithio ag Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd ynglŷn â rheoli ochr ffyrdd mewn ffordd neith annog bioamrywiaeth. | Cyngor |
| -adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth | Datblygu llecynnau ym mynwentydd Llanfor a Frongoch fel cynefinoedd perffaith i fywyd gwyllt amrywiol a hybu bioamrywiaeth yn yr ardal.<br>Gosod bocsys adar.<br>Ailosod unrhyw goed y mae'n rhaid eu disodli am resymau diogelwch/clefydau. | Cyngor |

| | | |
|---|---|---|
| -mynd i'r afael ag elfennau negyddol: lleihau llygredd e.e. defnyddio atebion yn seiliedig ar natur, mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol | Lleihau defnydd o chwynladdwyr i le mae'n gwbl angenrheidiol megis rheoli rhywogaethau goresgynnol megis Japanese Knotweed.<br><br>Ail gylchu gwastraff. | Cyngor |
| -defnyddio gwella a rhannu tystiolaeth | Hyrwyddo gwaith Parc Cenedlaethol Eryri drwy arddangos eu posteri ayyb yn ein neuaddau cymunedol. Hyrwyddo gwaith Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru yn Cors y Sarnau | Cyngor |
| -cefnogi capasiti ac/neu sefydliadau eraill | Cefnogi gwaith amaethwyr, gwaith cynnal llwybrau Partneriaeth Penllyn a Chyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru, Clwb Garddio Frongoch a Sioe Amaethyddol a Arddwriaethol Cwmtirmynach | Cyngor |

**Arolwg o ddyletswydd Adran 6**

Monitro parhaus

Arfarniad yn Rhagfyr bob blwyddyn

Bethan Jones
Clerc Cyngor Cymuned Llandderfel
01/12/25